Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU

Ffôn: 01978 311198

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrecsam
LL11 4NG

Ffôn: 01978 269580

FFEDERASIWN YSGOL PLAS COCH AC YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA (Pennaeth *Headteacher)*
mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk / mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Chwefror 7fed 2021

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Gobeithio fod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel. I ddechrau, hoffwn ddiolch yn fawr am bob neges, cerdyn, ebost a dymuniadau gorau a dderbyniais dros y ddau fis a hanner diwethaf tra fy mod i ffwrdd o'r gwaith – dw i wirioneddol yn gwerthfawrogi. Yn anffodus, aeth un llawdriniaeth yn dair oherwydd cymlethdodau ac aeth y cyfnod yn hirach na'r disgwyl. Erbyn hyn, rwy'n dod ati'n dda a byddaf yn dychwelyd i'r ysgolion yn raddol o'r wythnos yma ymlaen.

Hoffwn nodi fy niolch i Mr Geraint Jones (Plas Coch) ac i Mrs Awel Watson-Smyth a Miss Ffion Hughes (Bro Alun) am eu gwaith arbenning yn rhedeg yr ysgolion yn fy absenoldeb. Rydym yn ffodus iawn ohonynt ac o holl staff y ddwy ysgol; mae hyn wedi ei brofi fwy nag erioed yn ystod y cyfnod di gynsail hwn.

Fel mae'n siwr eich bod yn ymwybodol, gwnaethpwyd cyhoeddiad ddiwedd wythnos diwethaf yn dweud y bydd ysgolion Cymru yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Meithrin i Bl 2) yn ystod yr wythnos yn cychwyn Chwefror 22ain, gyda'r ddarpariaeth i blant Gweithwyr Allweddol CA 2 yn parhau yn yr ysgol. Byddwn yn cydweithio dros y dyddiau nesaf efo'r AALl i gadarnhau'r trefniadau gan gynnwys penderfyniad ar y cyd efo ysgolion y clwstwr Cymraeg os bydd dydd Llun, Chwefror 22ain yn parhau i fod yn ddiwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth berthnasol efo chi cyn gynted a phosib.

Gyda diolch,

Osian Jones